

Gwrandawriad cyn penodi – Cadeirydd Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mawrth 2022

1. Cyflwyniad

Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

1. Roedd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ('y Ddeddf') yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu corff cenedlaethol newydd: Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("y Corff"). Bydd y corff newydd hwn yn disodli Cynghorau Iechyd Cymuned (sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli llais y claf yn y gwasanaeth iechyd yn unig) a bydd yn arfer swyddogaethau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

2. O fis Ebrill 2023, bydd Corff Llais y Dinesydd yn cynrychioli llais a barn pobl Cymru ynglŷn â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yn annibynnol ar lywodraeth, y GIG ac awdurdodau lleol, ond bydd yn gyfrifol am weithio gyda hwy, ac eraill, i gefnogi gwelliant parhaus y gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

3. Diben y Corff yw arfer swyddogaethau penodol yn unol â'r Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy geisio barn y cyhoedd am y gwasanaethau hynny;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'i swyddogaethau, cyhoeddi datganiad o bolisi yn nodi sut y mae'n bwriadu gwneud hynny a sut y mae'n bwriadu ceisio barn y cyhoedd;



- ar ôl ceisio barn y cyhoedd, cyflwyno sylwadau i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau iechyd arbennig ac awdurdodau lleol am unrhyw fater y mae'n ei ystyried yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol; a'r
- pŵer i roi cyngor a chymorth gyda chwynion sy'n gysylltiedig ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Gwrandawriad cyn penodi

4. Ar 28 Mawrth 2022, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cyn penodi gyda'r Athro Medwin Hughes, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swydd cadeirydd y Corff. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

5. Er mwyn llywio'r gwrandawriad, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth i ni am y broses ("[papur briffio Llywodraeth Cymru](#)"), [CV yr Athro Hughes](#) a chopi o'r [pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr](#).

2. Y broses recriwtio

6. Ar 7 Ionawr 2022, hysbysebodd Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru am gadeirydd, dirprwy gadeirydd a 6 aelod anweithredol ar gyfer y Corff.

7. Gosodwyd hysbysebion y talwyd amdanynt ar y gwefannau canlynol:

- Swyddi Cymru;
- Rhwydwaith Diversity Jobsite;
- Golwg 360;
- Rhwydwaith BYP.

8. Cafodd y rolau eu hyrwyddo hefyd drwy lwyfannau a rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys GIG Cymru ac Arweinwyr Cyfathrebu Awdurdodau Lleol, a chafodd tair sesiwn ymwybyddiaeth ar gyfer darpar ymgeiswyr eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru. Mae'r manylion llawn i'w gweld ym mhapur briffio Llywodraeth Cymru.

9. Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus, anfonwyd yr hysbyseb hefyd at sefydliadau cydraddoldeb a sefydliadau eraill a oedd

wedi mynegi diddordeb. Mae data amrywiaeth sy'n ymwneud â'r ymgeiswyr i'w gweld ym [mhapur briffio Llywodraeth Cymru](#).

10. Yn dilyn cyfnod hysbysebu o dair wythnos, daeth yr hysbyseb i ben ar 1 Chwefror 2022. Cafwyd cyfanswm o 122 o geisiadau, ac roedd 16 ohonynt ar gyfer swydd y cadeirydd. I gefnogi'r Panel Asesu Ymgynghorol,¹ cynhaliodd swyddogion broses o sifftio'r 16 ymlaen llaw, ac argymhellwyd bod 10 ohonynt yn cael eu hystyried gan y Panel Asesu Ymgynghorol. Fodd bynnag, cafodd y chwech arall eu hadolygu gan y Panel a'u gadael allan. O'r 10 unigolyn a ystyriwyd, gwahoddwyd chwe ymgeisydd i gyfweiliad.

Manyleb y swydd a'r person

11. Nododd Llywodraeth Cymru rolau'r cadeirydd, y dirprwy gadeirydd ac aelodau anweithredol yn y [pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr](#). Roedd hyn yn cynnwys hysbysu y gallai penodi i rôl y cadeirydd, yn amodol ar ddisgresiwn y Pwyllgor, fod yn destun gwrandawriad cyn penodi.

12. Mae'r pecyn gwybodaeth yn egluro bod y cadeirydd yn atebol i Weinidogion Cymru. Bydd cyfathrebu rhwng y Bwrdd a'r Gweinidogion, yng nghwrs arferol busnes, yn digwydd drwy'r Cadeirydd. Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod polisiau a champau gweithredu'r Bwrdd yn cefnogi polisiau strategol ehangach y Gweinidog, gan sicrhau hefyd fod y Corff yn parhau'n annibynnol, ac nad oes unrhyw lyffethair ar ei allu i gyflwyno sylwadau a chodi pryderon ar sail tystiolaeth am weithgareddau.

13. Yn ogystal, dylai'r cadeirydd hefyd:

- sicrhau bod Aelodau'r Bwrdd yn cael gwybod am unrhyw gyfathrebu o'r fath;
- dangos angerdd ac ymrwymiad cryf, gweladwy i rôl y Corff a'i strategaeth;
- sicrhau uniondeb o ran y ffordd yr ymgwymerir â materion y Corff; a
- lle y bo'n briodol, sicrhau bod polisiau a champau gweithredu yn cael eu cyfleu a'u lledaenu ar draws y Corff.

14. O ran arweinyddiaeth, mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb penodol dros:

¹ 1. Aelodau'r panel oedd: Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru; Dr Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol; Albert Heaney CBE, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru; Bethan Jones-Edwards, Pennaeth y Rhaglen Dyfodol Gofal Cymdeithasol; Aaqil Ahmed, Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel.

- lunio strategaethau'r Bwrdd;
- sicrhau bod y Bwrdd, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi'r ystyriaeth briodol i ofynion statudol ac i ofynion o ran rheolaeth ariannol a'r holl ganllawiau perthnasol, gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru;
- hyrwyddo defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- hyrwyddo diwylliant yn y sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd ac ymddygiad cadarnhaol;
- sicrhau safonau uchel o reoleidd-dra a phriodoldeb; a
- chynrychioli barn y Bwrdd i'r cyhoedd.

3. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

Cefndir

15. Yr Athro Medwin Hughes, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yw Is-ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru.

16. Mae ei CV yn nodi:

"Ef yw'r Is-Ganghellor sydd wedi gwasanaethu hiraf yng Nghymru ac mae wedi bod yn gyfrifol am drawsnewid y system yn sylweddol. Graddiodd o Brifysgolion Cymru a Rhydychen, mae'n Gymrawd Uwchrifol Coleg yr Iesu, Prifysgol Rhydychen ac yn Gymrawd Anrhydeddus Coleg Harris Manceinion, Prifysgol Rhydychen. Mae'n chwarae rhan gyhoeddus sylweddol o fewn cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol ym meysydd addysg, cynhwysiant a pholisi diwylliannol. Mae wedi gwasanaethu ar nifer o gyrff Llywodraethol a Rhynglywodraethol ac mae wedi bod yn gyfrifol am hwyluso nifer o fentrau rhyngwladol gyda sefydliadau sy'n cynnwys Cyngor Ewrop ac UNESCO. Mae hefyd wedi dal sawl penodiad cyhoeddus a phenodiadau'r goron."

17. Mae [copi llawn o'i CV](#) ar gael ar ein gwefan.

Ein barn ni

18. Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl ni yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

19. Yn ystod y gwrandawriad cyn penodi, cawsom drafodaeth eang gyda'r ymgeisydd a ffefrir, yr Athro Medwin Hughes. Roedd hyn yn cwmpasu ei brofiad o weithio mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys ei rôl bresennol fel Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru.

20. Buom hefyd yn siarad am gydraddoldeb ac amrywiaeth, ei weledigaeth ar gyfer y corff newydd a phwysigrwydd adeiladu ar y gwaith da a wnaed yn flaenorol gan Gyngorau Iechyd Cymuned ac ymestyn hyn i faes gofal cymdeithasol. Dangosodd yr Athro Hughes barodrwydd arbennig i ymgysylltu â phobl a chymunedau ledled Cymru, i greu corff sy'n wirioneddol gynrychioliadol o farn pawb yng Nghymru. Roedd yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu a galluogi pobl i rannu eu barn yn eu dewis iaith, nid dim ond yn Gymraeg neu Saesneg. Roedd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cydberthnasau trawsffiniol o ran y bobl hynny sy'n byw yng Nghymru ond sy'n derbyn eu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol yn Lloegr.

Casgliad 1. Yn seiliedig ar ei berfformiad a'i ymatebion i gwestiynau yn y gwrandawriad cyn penodi, credwn fod yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yr Athro Medwin Hughes, yn addas i'w benodi i swydd Cadeirydd Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

21. Pe bai'r Athro Hughes yn cael ei benodi, dymunwn yn dda iddo yn ei rôl. Edrychwn ymlaen at waith craffu adeiladol ar y Corff yn ystod y Senedd hon. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd y sefydliad newydd yn parhau i gyfrannu'n gadarnhaol, fel y mae Cyngorau Iechyd Cymuned wedi'i wneud, at ein gwaith o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif o ran polisi, deddfwriaeth a gwariant sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

4. Y broses gwrandawiadau cyn penodi

Y broses

22. Cytunodd Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu a gaiff effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach y drefn o graffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus a thryloywder y broses honno. Yn gyffredinol, ffurf y gwaith craffu cyn penodi yw gwrandawriad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r

ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, mater i'r pwyllgor perthnasol yw penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawriad cyn penodi ai peidio.

23. Cytunwyd i gynnal gwrandawriad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir ar gyfer cadeirydd Corff Llais y Dinesydd oherwydd arwyddocâd y rôl o ran sicrhau bod y corff newydd yn cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru'n effeithiol mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gan fod Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym ei bod yn awyddus i wneud penodiad cyn 1 Ebrill 2022, gofynnwyd am gytundeb gan y Pwyllgor Busnes i gynnal cyfarfod ychwanegol ar 28 Mawrth 2022 at y diben hwn.

24. Cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer rôl y cadeirydd ar 4 Mawrth 2022. Fodd bynnag, ni chawsom y wybodaeth am yr ymgeisydd na'r broses benodi tan 21 Mawrth. Roedd hyn yn golygu bod yr amser oedd gennym i baratoi ar gyfer y gwrandawriad yn brin, ac nid oeddem yn gallu dilyn y dull a ddefnyddiwyd gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd o wahodd yr ymgeisydd a ffefrir i gwblhau holiadur ymlaen llaw i ddarparu gwybodaeth am eu profiad neu eu blaenoriaethau ar gyfer y rôl pe baent yn cael eu penodi.²

Ein barn ni

25. Mae gwrandawriadau cyn penodi yn rhan bwysig o'r broses o wneud penodiadau cyhoeddus. Maent yn rhoi mwy o dryloywder, ac yn sicrhau bod y rhai a benodir i rolau o bwys yn gallu gwrthsefyll gwaith craffu seneddol a chyhoeddus. Er mwyn bod yn deg ag ymgeiswyr, a sicrhau bod y gwrandawriadau'n ychwanegu'r gwerth y bwriedir iddynt ei wneud, mae'n hanfodol bod gan bwyllgorau ac ymgeiswyr ddigon o amser i baratoi.

26. Deallwn y bydd llawer o ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio prosesau recriwtio penodiadau cyhoeddus, ac y gallai amgylchiadau newid yn ystod ymgyrch recriwtio. Serch hynny, mae'n rhaid i waith cynllunio ar gyfer penodi rolau y mae gan bwyllgorau ddewis cynnal gwrandawriadau cyn penodi ar eu cyfer—neu lle y gellid ystyried ei bod yn debygol y byddai pwyllgorau'n gofyn am gynnal gwrandawriadau yn unol â'r meini prawf a nodir yn y protocol craffu cyn penodi y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd—gynnwys digon o amser i bwyllgorau baratoi ar gyfer eu gwaith craffu, cynnal y gwaith craffu hwnnw, ac adrodd arno.

² Cyflwynodd yr ymgeisydd yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio ar gyfer Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe [holiadur gwrandawriad cyn penodi](#) cyn y cyfarfod ar 12 Mawrth 2020
